

Mesur Arfaethedig Caeau Chwarae (Ymgysylltiad Cymunedau â Phenderfyniadau Gwaredu) (Cymru)

Memorandwm Esboniadol

Mae'r Memorandwm Esboniadol hwn wedi'i baratoi gan y Dr Dai Lloyd AC ac mae wedi'i osod gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Mae wedi'i ddiwygio yn unol â phenderfyniad gan Bwyllgor Deddfwriaeth Rhif 1 o dan Reol Sefydlog 23.40, a hynny i adlewyrchu gwelliannau a wnaed i'r Mesur arfaethedig yng Nghyfnod 2.

Datganiad ynghylch Cymhwysedd Deddfwriaethol

Yn fy marn i, byddai darpariaethau *Mesur arfaethedig Caeau Chwarae (Ymgysylltiad Cymunedau â Phenderfyniadau Gwaredu) (Cymru)*, a gyflwynwyd gennyf ar 18 Gorffennaf 2008, o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Y Dr Dai Lloyd AC
Yr Aelod sy'n gyfrifol am y Mesur arfaethedig

28 Medi 2010

Cynnwys

Rhan 1: Cefndir a Diben y Mesur Arfaethedig

1. Rhagymadrodd
2. Y Cefndir Deddfwriaethol
3. Diben y Ddeddfwriaeth a'r Amcanion Polisi
4. Pŵer i Wneud Is-ddeddfwriaeth
5. Cymhwysiad Tiriogaethol

Rhan 2: Nodiadau Esboniadol

- Ychwanegiad 1:** Y cyd-destun polisi a'r cyd-destun deddfwriaethol a ddarparwyd pan gyflwynwyd y Mesur arfaethedig
- Ychwanegiad 2:** Yr ymarfer ymgynghori cyn cyflwyno'r Mesur arfaethedig
- Ychwanegiad 3:** Yr Aseiad Effaith Rheoleiddiol a ddarparwyd pan gyflwynwyd y Mesur arfaethedig

Rhan 1: Cefndir a Diben y Mesur Arfaethedig

1. Rhagymadrodd

- 1.1 Ar 12 Rhagfyr 2007, bu'r Dr Dai Lloyd AC, Aelod Rhanbarthol Plaid Cymru dros Dde-orllewin Cymru, yn llwyddiannus yn y trydydd balot deddfwriaeth i roi hawl i Aelodau ofyn caniatâd y Cynulliad i gyflwyno Mesur arfaethedig Aelod.
- 1.2 Prif ddiben y Mesur arfaethedig yw gosod dyletswydd ar yr awdurdodau lleol i ystyried yr effaith a gâi gwerthu caeau chwarae sy'n perthyn i'r awdurdodau lleol ar gymunedau lleol, yn nhermau iechyd, lles a chynhwysiant cymdeithasol, cyn iddyn nhw fwrw ymlaen i'w gwerthu neu i gael gwared arnyn nhw. Gan hynny, bydd y Mesur arfaethedig yn gosod dyletswydd ar yr awdurdodau lleol (gan gynnwys y Parciau Cenedlaethol a chynghorau cymuned) i baratoi datganiadau o'r effaith ac ymgynghori arnyn nhw pan fyddan nhw'n cynnig cael gwared ar gaeau chwarae.
- 1.3 Ar 6 Chwefror 2008, cytunodd y Cynulliad, yn ddiwrthwynebiad, y gallai'r Mesur arfaethedig gael ei gyflwyno i'w ystyried gan y Cynulliad.
- 1.4 Cafodd Memorandwm Esboniadol ei baratoi a'i osod yn unol â Rheol Sefydlog 23.18 ar 18 Gorffennaf 2008. Nododd gefndir y darpariaethau yn y Mesur arfaethedig Aelod, *Mesur Arfaethedig Caeau Chwarae (Ymgysylltiad Cymunedau â Phenderfyniadau Gwaredu) (Cymru)* ac egluro'i gwmpas.
- 1.5 Ar 7 Gorffennaf 2010, cafodd y Mesur arfaethedig ei ddiwygio'n arwyddocaol yn ystod trafodion Cyfnod 2. Wedyn gofynnodd Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 1, a fu'n craffu ar y Mesur arfaethedig, i'r Dr Dai Lloyd baratoi Memorandwm Esboniadol diwygiedig, a hynny o dan Reol Sefydlog 23.40.

2. Y Cefndir Deddfwriaethol

- 2.1 Mae cyd-destun cyfansoddiadol y cynnig hwn wedi'i nodi yn *Neddf Llywodraeth Cymru 2006*. Mae'r Ddeddf yn darparu mecanwaith i ychwanegu at bwerau deddfu Cynulliad Cenedlaethol Cymru, gan ganiatáu iddo wneud Mesurau lle mae ganddo'r 'cymhwysedd deddfwriaethol' (hynny yw y pŵer) i wneud hynny.
- 2.2 Mae Rheolau Sefydlog y Cynulliad yn darparu y caiff Aelodau meinciau cefn y Cynulliad, yn ogystal â Llywodraeth Cynulliad Cymru neu bwyllgorau'r Cynulliad, gyflwyno Mesurau arfaethedig lle mae gan y Cynulliad gymhwysedd deddfwriaethol eisoes mewn maes polisi.
- 2.3 Darperir y cymhwysedd deddfwriaethol ar gyfer y Mesur arfaethedig hwn ym Mater 12.5 (b) o Atodlen 5 i *Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006* -

Matter 12.5

Provision for and in connection with –

(...)

(b) the making of arrangements by relevant Welsh authorities for the involvement in the exercise of their functions of people who are likely to be affected by, or interested in, the exercise of the functions.

3. Diben y Ddeddfwriaeth a'r Amcanion Polisi

- 3.1 Ar hyn o bryd, mae'r darpariaethau yn y ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â gwaredu caeau chwarae yn golygu, i bob pwrpas, fod unrhyw warediad yn gallu mynd yn ei flaen heb asesiad llawn o effaith y gwarediad hwnnw ar iechyd a lles y gymuned leol.¹
- 3.2 Ar ôl cael ei ddiwygio yng Nghyfnod 2,² mae'r Mesur arfaethedig yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru i wneud rheoliadau i gynnwys cymunedau ym mhenderfyniadau'r awdurdodau lleol am sut maen nhw'n cael gwared ar gaeau chwarae. Bydd y pŵer hwn yn galluogi Gweinidogion Cymru i ragnodi'r mathau o waredu sy'n dod o dan y rheoliadau a'r gweithdrefnau manwl ynglŷn â'r cyhoeddusrwydd a'r ymgynghori ynglŷn ag ef sydd i'w dilyn gan yr awdurdodau cyn penderfynu cael gwared ar gae chwarae.
- 3.3 Mae trawsgrifiad llawn trafodion Cyfnod 2 ar gael ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol.³
- 3.4 Mae Ychwanegiad 1 yn nodi'r cyd-destun polisi a'r cyd-destun deddfwriaethol gwreiddiol a gafwyd yn y Memorandwm Esboniadol adeg cyflwyno'r Mesur arfaethedig ym mis Gorffennaf 2008, ac mae Ychwanegiad 2 yn nodi manylion yr ymarfer ymgynghori a gafwyd cyn i'r Mesur arfaethedig gael ei gyflwyno. Yn Ychwanegiad 3 ceir yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol gwreiddiol a gafwyd i gyd-fynd â chyflwyno'r Mesur arfaethedig gwreiddiol.
- 3.5 Ar 3 Chwefror 2009, cyhoeddodd Llywodraeth Cynulliad Cymru fersiwn terfynol Nodyn Cyngor Technegol 16 (TAN 16): '*Chwaraeon, Hamdden a Mannau Agored*'.⁴
- 3.6 Mae fersiwn terfynol TAN 16 yn cynghori'r awdurdodau cynllunio lleol i gynnal Asesiadau Mannau Agored (OSA), ond nid yw'n gwneud hynny'n ofynnol, gan adlewyrchu'r ymatebion i'r ymgynghoriad ym mis Mawrth 2007.
- 3.7 Mae TAN 16 hefyd yn nodi bod OSAs yn rhan bwysig o broses paratoi'r Cynllun Datblygu Lleol (CDLI), ond na ddylai'r gwaith i baratoi polisiâu ar hamdden a manau agored yn CDLI yr awdurdod gael ei ohirio os nad oes OSA ar gael, ond ei seilio yn hytrach ar "pa bynnag wybodaeth sydd wrth law, ac y maent [yr awdurdodau cynllunio lleol] yn hyderus yn ei chylch".

¹ Mae'r darpariaethau deddfwriaethol perthnasol wedi'u cynnwys yng *Ngorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Datblygu Cyffredinol) 1995*, OS 1995 / 419 a *Deddf Llywodraeth Leol 1972*.

² Mae'r Mesur arfaethedig gwreiddiol, cyn ei ddiwygio, ar gael yn: <http://www.cynulliadcymru.org/bus-home/bus-legislation/bus-leg-measures/bus-legislation-meas-pf.htm>

³ <http://www.cynulliadcymru.org/bus-home/bus-legislation/bus-leg-measures/bus-legislation-meas-pf.htm>

⁴ Llywodraeth Cynulliad Cymru, [Nodyn Cyngor Technegol 16: Chwaraeon, Hamdden a Mannau Agored](#), Chwefror 2009

- 3.8 Cynigiodd y cynigion eraill yn ymgynghoriad mis Mawrth 2007 ynghylch dulliau diogelu ychwanegol ar gyfer mannau agored at hamdden y dylid diwygio'r ddeddfwriaeth gynllunio, lleihau'r trothwy maint sy'n sbarduno ymgynghoriad statudol â Chyngor Chwaraeon Cymru, ac ehangu'r diffiniadau o dir hamdden y mae angen ymgynghori yn ei gylch. Mae'r cyntaf o'r rhain i'w roi ar waith, ac mae'r TAN diwygiedig yn cynnwys diffiniadau ehangach.

4. Pŵer i wneud Is-ddeddfwriaeth

- 4.1 Mae'r Mesur arfaethedig yn cynnwys pwerau i Weinidogion Cymru i wneud rheoliadau i weithredu a nodi'r manylion y mae eu hangen i ategu'r egwyddorion a geir yn y Mesur arfaethedig. Caniateir i'r rheoliadau gael eu cymhwyso at warediadau penodedig gwahanol a chaeau chwarae penodedig a chânt ei gwneud yn ofynnol i awdurdod lleol ymgynghori â phersonau y mae'n debyg yr effeithir arnynt gan y gwarediad ac yn darparu ffurf a dull yr ymgynghori hwnnw. Yn ychwanegol caniateir i'r rheoliadau ddarparu ar gyfer rhoi hysbysiad (gan gynnwys ffurf yr hysbysiad a'i gynnwys). Caniateir hefyd i'r rheoliadau ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdod lleol ddarparu gwybodaeth am effaith y gwarediad ar unrhyw strategaeth, cynllun neu asesiad a bennir yn y rheoliadau.
- 4.2 Caniateir hefyd i'r rheoliadau ddarparu bod rhaid i'r awdurdod lleol, wrth arfer swyddogaethau o dan y Mesur, roi sylw i unrhyw ganllawiau a roddir gan Weinidogion Cymru.
- 4.3 Mae rheoliadau a wneir o dan y Mesur i gael eu gwneud drwy offeryn statudol o dan y weithdrefn negyddol a gallant gael eu diddymu yn unol â phenderfyniad gan y Cynulliad Cenedlaethol.

5. Cymhwysiad Tiriogaethol

- 5.1 Bydd y Mesur arfaethedig hwn yn gymwys o ran Cymru. Bydd yn rhoi swyddogaethau i Weinidogion Cymru ac i awdurdodau lleol yng Nghymru.

Rhan 2: Nodiadau Esboniadol

Adran 1A – Ymgysylltiad cymunedau â gwarediadau gan awdurdodau lleol o gaeau chwarae

1. Mae'r adran hon yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru i wneud rheoliadau sy'n darparu ar gyfer cynnwys cymunedau ym mhenderfyniadau'r awdurdodau lleol ynghylch cael gwared ar dir sy'n gae chwarae neu sy'n ffurfio rhan o gae chwarae.
2. Diffinnir "awdurdod lleol" yn is-adran (3) fel cyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol, cyngor cymuned (gan gynnwys cyngor tref) ac awdurdod Parc Cenedlaethol, a "gwaredu" fel rhoi unrhyw ystâd neu fuddiant mewn tir neu wneud cytundeb i wneud hynny. Mae is-adran (3) hefyd yn diffinio "cae chwarae". Ystyr cae chwarae yw man agored sy'n cynnwys un neu fwy o ardaloedd sydd ar unrhyw adeg wedi'u marcio neu wedi'u neilltuo mewn modd arall at chwaraeon neu weithgarwch hamdden tebyg.
3. Caiff rheoliadau a wneir o dan yr adran hon ddarparu i'r rheoliadau hynny gael eu cymhwyso at fathau penodol o waredu neu fathau penodol o gaeau chwarae, a chânt beri bod rhaid ymgynghori ynglŷn â gwarediad yn unol â'r rheoliadau, a'i gwneud yn ofynnol i hysbysiad gael ei roi ynglŷn â'r cynigion. Caniateir ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdodau lleol ddarparu gwybodaeth am effaith gwarediad arfaethedig ar unrhyw strategaeth, cynllun neu asesiad a bennir yn y rheoliadau, neu am unrhyw beth arall sy'n gysylltiedig â'r gwarediad, a chaniateir ei gwneud yn ofynnol iddynt ddarparu'r wybodaeth yn y ffurf a'r dull a bennir yn y rheoliadau.
4. Os darperir felly gan y rheoliadau, mae'n rhaid i'r awdurdod lleol, wrth iddo arfer ei swyddogaethau o dan y rheoliadau, roi sylw i ganllawiau a roddir gan Weinidogion Cymru.
5. Caniateir i reoliadau a wneir o dan yr adran hon wneud darpariaeth wahanol ar gyfer achosion gwahanol neu ar gyfer dosbarthau gwahanol o achosion, gwneud darpariaeth yn gyffredinol neu'n benodol, a gwneud unrhyw ddarpariaethau cysylltiedig, darpariaethau atodol, darpariaethau canlyniadol, darpariaethau trosiannol neu ddarpariaethau arbed a wêl Gweinidogion Cymru yn dda.

Adran 2A – Diwygio Deddf Llywodraeth Leol 1972 (p.70)

6. Mae adran 2A yn diwygio adran 123 (gwaredu tir gan y prif gynghorau) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 ("Deddf 1972") sy'n gwneud darpariaeth ynghylch gwaredu mannau agored gan yr awdurdodau lleol. Mae'r diwygiad a wneir gan is-adran (2) yn darparu y bydd gwarediadau tir gan y prif gynghorau, hynny yw cynghorau sir neu gynghorau bwrdeistref sirol,

yn ogystal â dod o dan ddarpariaethau adran 123, hefyd yn dod o dan ddarpariaethau'r Mesur. Mae is-adran (3) yn gwneud diwygiad tebyg i adran 127 o Ddeddf 1972 (gwaredu tir gan blwyfi a chymunedau).

Adran 3A - Gwaredu caeau chwarae gan awdurdodau Parciau Cenedlaethol

7. Mae adran [3A] yn diwygio Deddf yr Amgylchedd 1995. Effaith y diwygiad yw cymhwyso darpariaethau'r Mesur at warediadau tir gan awdurdodau Parciau Cenedlaethol hefyd.

Adran 9 - Trefn ar gyfer rheoliadau

8. Mae rheoliadau a wneir o dan y Mesur i'w gwneud drwy offeryn statudol a gallant gael eu diddymu yn unol â phenderfyniad gan y Cynulliad Cenedlaethol.

Adran 12 – Enw byr a chychwyn

9. Mae'r adran hon yn darparu mai Mesur Caeau Chwarae (Ymgysylltiad Cymunedau mewn Penderfyniadau Gwaredu) (Cymru) 2010 fydd enw'r Mesur. Daw'r Mesur i rym ar y diwrnod y caiff ei gymeradwyo gan Ei Mawrhydi yn y Cyfrin Gyngor.

Ychwanegiad 1. Y cyd-destun polisi a'r cyd-destun deddfwriaethol a ddarparwyd pan gyflwynwyd y Mesur arfaethedig

Ymddangosodd yr Ychwanegiad hwn fel Pennod 4 yn y Memorandwm Esboniadol gwreiddiol a osodwyd ym mis Gorffennaf 2008. Nid yw wedi'i ddiweddarau i gymryd i ystyriaeth unrhyw newidiadau polisi ers hynny.

Pwysigrwydd caeau chwarae

- 4.1 Mae caeau chwarae yn gyfleuster hygyrch i bob grŵp oedran mewn cymuned ar gyfer cymryd rhan mewn gweithgarwch corfforol, boed ar ffurf digwyddiadau chwaraeon trefnedig, neu yn syml ar ffurf cerdded neu chwarae. Gallai hybu'r gweithgarwch corfforol hwn o oedran cynnar fod yn ffactor hollbwysig wrth atal gordewdra yn nes ymlaen mewn bywyd.
- 4.2 Mae caeau chwarae hefyd yn cyfrannu'n gadarnhaol at les cyffredinol y gymuned a'r amgylchedd lleol.
- 4.3 Dywedodd Gwasanaeth Iechyd Cyhoeddus Cenedlaethol Cymru (NPHS), yn ei *Health Needs Assessment Report 2006*, fod gweithgarwch corfforol nid yn unig yn cyfrannu at les, ond ei fod hefyd yn hanfodol ar gyfer iechyd da. Mae gan bobl sydd â ffordd gorfforol weithgar o fyw ryw 50 y cant yn llai o risg o ddatblygu clefyd coronaidd y galon (CHD), strôc a diabetes math 2 o'u cymharu â'r rhai sydd â ffordd eisteddog o fyw, ac maen nhw'n gallu lleihau rhyw 20-30 y cant ar eu risg o farw'n rhy gynnar. Mae gweithgarwch corfforol rheolaidd yn gysylltiedig hefyd â lleihau'r risg o ordewdra, osteoporosis a chanser y colon ac â gwell iechyd meddwl a gwell gallu i weithredu mewn oedolion hŷn.
- 4.4 Mae canfyddiadau o *Arolwg Iechyd Cymru 2005/06* yn awgrymu bod 56 y cant o bobl 16 oed a throsodd yng Nghymru yn rhy drwm neu'n ordew a bod 19 y cant yn ordew, ar sail eu Mynegai Màs Corff.⁵
- 4.5 Mae'r *Astudiaeth Ryngwladol ar Ymddygiad Iechyd ymhlith Plant o Oedran Ysgol* yn astudiaeth ymchwil ar draws cenedlaethau a gafodd ei chynnal mewn cydweithrediad â swyddfa ranbarthol Ewropeaidd Sefydliad Iechyd y Byd. Mae'r canfyddiadau ar gyfer Cymru, sy'n deillio o'r taldra a'r pwysau a roddodd y plant eu hunain, i'w gweld yn Nhabl 1 isod.

⁵ [Llywodraeth Cynulliad Cymru, Arolwg Iechyd Cymru 2005/06, 2007 \(tabl 4.9\)](#)

Tabl 1: Canran y plant 13 a 15 oed sydd bron yn ordew ac yn ordew

Oedran	Bechgyn		Merched	
	Bron yn ordew	Gordew	Bron yn ordew	Gordew
13 oed	17.8	4.4	15.1	1.7
15 oed	16.6	5.6	14.4	3.0

Ffynhonnell: Astudiaeth Ryngwladol ar Ymddygiad Iechyd ymhlith Plant o Oedran Ysgol 2001/2002

- 4.6 Mae canlyniadau *Arolwg Iechyd Cymru 2005/6* yn dangos mai 29 y cant o oedolion a gyrhaeddodd yr isafswm sy'n cael ei argymhell ar gyfer gweithgarwch corfforol cymedrol, sef 30 munud, bum gwaith yr wythnos. Mae hyn yn cael ei ddadansoddi yn 36 y cant yn achos dynion a 23 y cant yn achos menywod. Mae'r *Health Needs Assessment Report 2006* yn datgan ymhellach:

The historically high prevalence of many of these chronic diseases in Wales, particularly in those areas of worst socio-economic deprivation, coupled with high levels of sedentary behaviour, have brought the physical activity agenda to the forefront of both the public health and political agendas in recent years. The evident downward trends in activity levels are one of the principal reasons for the conversely upward trends in obesity. With physical activity being one half of the energy balance equation, it follows that this must continue to be an important focus for national action.⁶

- 4.7 Amcangyfrif Meysydd Chwarae Cymru yw bod rhyw 17 o gaeau chwarae o amgylch Cymru mewn perygl ar hyn o bryd o gael eu gwerthu.⁷
- 4.8 Mae caeau chwarae yn amwynder lleol a hygyrch ar gyfer amrywiaeth o weithgareddau corfforol o gerdded i chwarae gemau tîm. Os oes rhaid i gyhoedd Cymru gynyddu lefelau eu gweithgarwch corfforol, yna mae'n hanfodol bod ystyriaeth briodol yn cael ei rhoi i gael gwared ar amwynderau sy'n darparu cyfleoedd ar gyfer y gweithgareddau hynny.
- 4.9 Mae'r Mesur arfaethedig hwn, felly, yn cydnabod bod caeau chwarae yn adnoddau pwysig sy'n caniatáu ac yn hybu gweithgareddau corfforol, ac sydd o ganlyniad i hynny yn gwneud cyfraniad cadarnhaol i gynnal a hefyd i wella iechyd a lles cymunedau lleol. Gan hynny, bydd y Mesur arfaethedig yn sicrhau bod unrhyw gynigion i gael gwared ar gaeau chwarae yn cael eu hasesu o safbwynt yr effaith a gâi'r gwarediad yn nhermau iechyd a lles cymunedau lleol a bod y cynigon yn destun ymgynghori â'r cymunedau lleol hefyd.

⁶ Health Needs Assessment 2006

⁷ Gwybodaeth a roddwyd i'r Dr Dai Lloyd AC gan Feysydd Chwarae Cymru, Chwefror 2008.

Polisiâu a strategaethau

- 4.10 Mae gan Lywodraeth Cynulliad Cymru amrywiaeth o strategaethau a mentrau sydd wedi'u hanelu at hybu bwyta'n iach a gweithgarwch corfforol er mwyn lleihau gordewdra a hybu byw'n iach a lles.
- 4.11 Yn benodol, o dan ofynion *Deddf Diwygio'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol a Phroffesiynau Gofal Iechyd 2002*, mae'n rhaid i bob Bwrdd Iechyd Lleol a phob awdurdod lleol yng Nghymru lunio a gweithredu strategaeth ar gyfer iechyd a lles y boblogaeth (y strategaeth iechyd, gofal cymdeithasol a lles) yn yr ardal, a rhoi sylw i'r strategaeth honno wrth arfer eu swyddogaethau⁸. Dylai'r strategaeth fynd i'r afael â'r canlynol, ymhlith pethau eraill:
- cyflwr iechyd a lles y boblogaeth leol;
 - anghenion y boblogaeth leol o safbwynt iechyd a lles;
 - y ddarpariaeth bresennol ar gyfer gwasanaethau iechyd a lles i'r boblogaeth leol;
 - bylchau neu ddiffygion yn y ddarpariaeth ar gyfer gwasanaethau iechyd a lles ar gyfer y boblogaeth leol;
 - risgiau i iechyd a lles y boblogaeth leol;
 - ffactorau sy'n effeithio ar iechyd a lles y boblogaeth leol gan gynnwys ffactorau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol.
- 4.12 Un o ymrwymadau *Cymru'n Un*, o waith trydedd Lywodraeth Cynulliad Cymru, yw'r addewid *Annog Chwaraeon a Gweithgarwch Corfforol*,⁹ sy'n amcanu at wella iechyd. Cyn hynny, cyhoeddodd Llywodraeth Cynulliad Cymru ei strategaethau ar gyfer chwaraeon a gweithgarwch corfforol, *Dringo'n Uwch (2005)*,¹⁰ a *Dringo'n Uwch: y Camau Nesaf (2006)*.¹¹
- 4.13 Tanlinellodd canllawiau a roddwyd gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i'r awdurdodau lleol ym mis Hydref 2007 mor bwysig yw manau agored er lles cymunedau ac unigolion:

“Mae darparu manau agored cyhoeddus a chyfleusterau ar gyfer chwaraeon a hamdden yn un o sylfeini ansawdd bywyd pobl. Mae'n bwysig i iechyd a lles unigolyn, ac i hyrwyddo cymunedau cynaliadwy....

⁸ Mae *Rheoliadau Strategaethau Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles (Cymru) 2003*, OS UK/154 (Cy.24) yn pennu'r materion y dylai'r strategaethau eu cynnwys.

⁹ *Dogfen Cymru'n Un*, 2007.

¹⁰ Llywodraeth Cynulliad Cymru, *Dringo'n Uwch*

¹¹ Llywodraeth Cynulliad Cymru, *Dringo'n Uwch: Y Camau Nesaf*

Mae mannau agored cyhoeddus yn chwarae rhan bwysig mewn galluogi hamdden anffurfiol a ffurfiol, adloniant ac ymarfer, sy'n amrywio o dro achlysurol i gêm pêl-droed drefnedig. Mae angen mannau o faint a lleoliadau gwahanol yn ôl y swyddogaeth maent yn eu cyflawni.¹²

Darpariaethau yn y Ddeddfwriaeth

- 4.14 Mae datblygu sy'n effeithio ar gaeau chwarae yn cael ei reoli ar hyn o bryd drwy'r system cynllunio defnyddio tir ac yn benodol drwy *Orchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Datblygu Cyffredinol) 1995* ac mae gwaredu mannau agored (gan gynnwys caeau chwarae) yn cael ei reoli gan *Ddeddf Llywodraeth Leol 1972*.
- 4.15 Mae *Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Datblygu Cyffredinol) 1995*¹³ yn ei gwneud yn ofynnol ar hyn o bryd i'r awdurdodau cynllunio ymgynghori â Chyngor Chwaraeon Cymru ynghylch ceisiadau cynllunio sy'n effeithio ar "gae chwarae", ac mae'n diffinio'r rhain fel meysydd chwarae sydd wedi'u marcio, gan gynnwys ardaloedd gor-redeg, o fwy na 0.4 hectar o ran eu maint. Yn sgil yr ymarfer ymgynghori *Changes to the Development Control System (Gorffennaf 2006)*¹⁴ ac ymarfer ymgynghori dilynol ym mis Mawrth 2007,¹⁵ mae Llywodraeth Cynulliad Cymru'n bwriadu diwygio'r gofyniad bod rhaid ymgynghori â Chyngor Chwaraeon Cymru ynghylch ceisiadau cynllunio sy'n effeithio ar gaeau chwarae a mannau agored drwy leihau'r trothwy ar gyfer ystyriaeth o 0.4 i 0.2 hectar a thrwy ehangu'r diffiniad o gaeau chwarae.
- 4.16 Yn gyffredinol, mae'r awdurdodau lleol yn rhydd i gael gwared ar y tir sydd ganddyn nhw mewn unrhyw fodd sy'n addas yn eu barn nhw. Er hynny, o dan adrannau 123 a 127 o *Ddeddf Llywodraeth Leol 1972*, dydy'r awdurdodau lleol ddim yn cael gwaredu mannau agored oni bai eu bod yn mynd ati yn gyntaf i gyhoeddi hysbysiad ynglŷn â'u bwriad i wneud hynny am ddwy wythnos yn olynol mewn papur newydd lleol, gan roi ystyriaeth i unrhyw wrthwynebiadau. Mae cyfyngiadau tebyg yn gymwys i gynghorau tref a chymuned.
- 4.17 Fydd y gofynion sydd wedi'u gosod ar yr awdurdodau lleol a'r cynghorau cymuned gan adrannau 123 a 127 yn y drefn honno o *Ddeddf Llywodraeth Leol 1972* mewn perthynas â gwaredu mannau agored ddim yn gymwys mwyach mewn perthynas â thir y mae'r Mesur arfaethedig yn gymwys iddo. Er hynny, fe fyddai'r gofynion perthnasol mewn perthynas â chaniatâd cynllunio yn dal yn gymwys.

¹² CLILC, *Cyflwyno Datblygiad Cynaliadwy drwy'r System Gynllunio yng Nghymru: Arweiniad ymarferol i awdurdodau cynllunio lleol*, Hydref 2007.

¹³ *Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Datblygu Cyffredinol) 1995*

¹⁴ Llywodraeth Cynulliad Cymru, *Changes to the Development Control System*, Papur Ymgynghori, Gorffennaf 2006.

¹⁵ Llywodraeth Cynulliad Cymru, Consultation On Proposals to Provide Additional Protection for Recreational Open Space – Annex A, Mawrth 2007 <http://new.wales.gov.uk/consultations/closed/plancloscons/1344065/?lang=en>

Canllawiau Cynllunio

4.18 Wrth waredu caeau chwarae, mae'n rhaid i'r awdurdodau lleol gymryd i ystyriaeth ganllawiau cynllunio. Dylen nhw roi sylw i Bennod 11 o *Polisi Cynllunio Cymru a Nodyn Cyngor Technegol 16 ('TAN 16'), Chwaraeon a Hamdden*.¹⁶

4.19 Mae *TAN 16* yn dweud hyn:

"Mae i fannau agored werth positif at ddibenion hamdden. Dylai'r awdurdodau lleol ystyried sut y defnyddir y safleoedd sy'n perthyn iddynt. Ni allant gael gwared ar fannau agored na'u neilltuo at ddiben arall, oni bai eu bod yn gyntaf yn cyhoeddi hysbysiad o'u bwriad i wneud hynny am bythefnos o'r bron mewn papur newydd lleol ac yn ystyried unrhyw wrthwynebiadau."¹⁷

4.20 Mae *TAN 16* yn dweud hefyd:

"Mae meysydd chwarae yn arbennig o arwyddocaol am eu gwerth yn nhermau hamdden ac amwynder ac, yn y trefi a'r dinasoedd, am eu cyfraniad at yr amgylchedd trefol. Pan na fydd mo'u hangen at eu diben gwreiddiol, gallant fodloni'r angen cynyddol am dir hamdden yn y gymuned ehangach. O gofio'u gwerth ar gyfer hamdden ac amwynder, dylid archwilio unrhyw bosibilrwydd y bydd meysydd chwarae ysgolion yn cael eu gwaredu, er mwyn cadarnhau na fydd angen y safleoedd yn y tymor hirach i'w defnyddio gan yr ysgol neu'r gymuned.

Gall darparu cyfleusterau ag arwynebau synthetig neu arwynebau eraill a all ddygydd mod defnydd dwys helpu i fodloni'r galw am gyfleusterau chwaraeon. Er hynny, nid oes modd iddynt gymryd lle meysydd chwarae glas yn uniongyrchol. Er y gallant dynnu'r pwysau oddi ar feysydd chwarae a neuaddau chwaraeon eraill, anaml y maent yn cyfiawnhau rhyddhau meysydd chwarae glas at ddibenion eraill. Dylid rhoi ystyriaeth hefyd i union swyddogaeth arwynebau artiffisial o ran chwaraeon. Yn aml bydd angen rhoi blaenoriaeth i fathau dwys o ddarpariaeth megis darpariaeth aml-gamp sy'n cyfuno cyfleusterau y tu mewn a'r tu allan."¹⁸

4.21 Ym mis Gorffennaf 2006, rhyddhaodd Llywodraeth Cynulliad Cymru y *TAN 16* diwygiedig drafft, "Sport, Recreation and Open Space",¹⁹ at ddibenion ymgynghori â'r cyhoedd.

4.22 Cafodd y *TAN* diwygiedig drafft ei baratoi yng ngoleuni ymrwymadau Llywodraeth Cynulliad Cymru i iechyd a lles, mwy o gymryd rhan mewn gweithgarwch corfforol a chyfleoedd i bawb, fel y maen nhw wedi'u nodi yn *Cymru: Gwlad Well (2003)* a *Dringo'n Uwch (2005)*.

¹⁶ Mae *TAN 16* yn cael ei ddiwygio gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ar hyn o bryd.

¹⁷ *TAN 16*, paragraff 6

¹⁸ *TAN 16*, paragraffau 10 ac 11

¹⁹ Llywodraeth Cynulliad Cymru, *Revision of Technical Advice Note 16 "Sport, Recreation and Open Space" – drafft ymgynghori*, Gorffennaf 2006

<http://new.wales.gov.uk/consultations/closed/plancloscons/1207864/?lang=en>

4.23 Argymhellodd y TAN diwygiedig drafft y dylai'r awdurdodau cynllunio gynnal Asesiad o Fannau Agored, a ddylai gael ei ddefnyddio i fwydo gwaith i ddatblygu, asesu a monitro'r polisïau mewn cynlluniau datblygu. Dylai'r Asesiad o Fannau Agored gymryd i ystyriaeth bob math o fannau agored ar gyfer hamdden ffurfiol ac anffurfiol a dylai gynnwys asesiad o'r anghenion lleol, ac archwiliad o'r cyflenwadau lleol. O ganlyniad i hynny, dylai'r Asesiad o Fannau Agored ddod o hyd i ddiffygion lleol yn y ddarpariaeth, a hefyd i ormodeddu yn y ddarpariaeth. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru'n dweud y byddai Asesiad o Fannau Agored hefyd yn bwydo penderfyniadau ynghylch rheoli datblygu ar gyfer ceisiadau sy'n effeithio ar fannau agored at hamdden ffurfiol ac anffurfiol.

"By taking into consideration local excess or shortfalls of recreational facilities, planning authorities would be able to reach better informed decisions, reflecting public demand and use of recreational land uses that are subject to applications for development. The evidence provided by an Open Space Assessment would enable planning authorities to provide evidence to support planning decisions affecting these sites."²⁰

4.24 Mae'r TAN diwygiedig drafft yn nodi'r camau y dylai'r awdurdod lleol fynd drwyddyn nhw er mwyn cynhyrchu Asesiad o Fannau Agored. Mae hyn yn cynnwys nodi gormodeddu a diffygion o ran faint o fannau agored, chwaraeon a hamdden sydd ar gael. Disgwylir hefyd i'r awdurdod lleol ymgynghori â'r rhanddeiliaid fel rhan o'r broses.

4.25 Ymgynghorodd Llywodraeth Cynulliad Cymru wedyn ym mis Mawrth 2007²¹ ynghylch cyflwyno gofyniad polisi bod rhaid i'r awdurdodau cynllunio lleol gynnal Asesiad o Fannau Agored (eu cynghori yn unig i baratoi asesiadau o'r fath a wnaed yn y drafft diwygiedig o *TAN 16 Sport, Recreation and Open Space* yr ymgynghorwyd yn ei gylch yn 2006).

4.26 Nid yw canlyniad yr ymgynghori hwn wedi'i gyhoeddi eto gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ac nid yw'r TAN 16 newydd wedi'i gyhoeddi eto.

4.27 Byddai'r Mesur arfaethedig yn gosod dyletswydd ar yr awdurdodau lleol sy'n ychwanegol at yr hyn sy'n ofynnol o dan y canllawiau polisi cynllunio, gan gynnwys y diwygiadau arfaethedig i TAN 16.

²⁰ Llywodraeth Cynulliad Cymru, Ymgynghori ar Gynigion i Ddarparu Diogelwch Ychwanegol ar gyfer mannau Agored at Hamdden – Atodiad A, Mawrth 2007 <http://new.wales.gov.uk/consultations/closed/plancloscons/1344065/?lang=en>

²¹ *ibid*

Ychwanegiad 2: Yr ymarfer ymgynghori cyn cyflwyno'r Mesur arfaethedig

Ymddangosodd yr Ychwanegiad hwn fel Pennod 5, ac Atodiadau 1 a 2 yn y Memorandwm Esboniadol gwreiddiol a osodwyd pan gyflwynwyd y Mesur arfaethedig ym mis Gorffennaf 2008.

- 5.1 Cafodd y Mesur arfaethedig ei gyhoeddi at ddibenion ymgynghori ym mis Mai 2008, am gyfnod o bedair wythnos. Daeth 17 o ymatebion i law. Mae rhestr o'r ymatebwyr i'w gweld yn **Atodiad 1**. O'r rhain, roedd un ar ddeg yn fras o blaid y Mesur arfaethedig a chwech (bob un o fyd llywodraeth leol) yn ei wrthwynebu, gan ddadlau y bydd y TAN 16 diwygiedig sydd ar y gweill yn darparu dulliau diogelu digonol a phriodol.
- 5.2 Mae crynodeb o'r ymatebion i'r cwestiynau ymgynghori ar gael yn **Atodiad 2**.
- 5.3 Mae'r Mesur arfaethedig wedi'i ddiwygio yng ngoleuni'r ymarfer ymgynghori ac mae'r prif newidiadau fel a ganlyn:

Adran 1

- Mae adran 1 wedi'i diwygio i gynnwys yr hyn sydd bellach yn adran 1(2). Effaith hyn yw hepgor o ofynion y Mesur arfaethedig unrhyw warediad ar gae chwarae gan un awdurdod lleol i un arall neu gan awdurdod lleol i elusen gofrestredig neu i gorff neu gymdeithas chwaraeon neu hamdden. Diben hyn yw esemptio o'r weithdrefn y gwarediadau hynny lle bydd y tir yn parhau i fod ym mherchnogaeth corff sydd yn fras yn cynrychioli buddiant y gymuned neu sydd ei hun yn ymwneud â gweithgareddau chwaraeon neu hamdden. Fyddai'r esemptiad hwn ddim yn effeithio, wrth gwrs, ar y gofyniad bod rhaid i gorff o'r fath sicrhau caniatâd cynllunio ar gyfer unrhyw newid defnydd wedyn.
- Bwriedir i'r adran 1(4) newydd osgoi amharu ar awdurdod lleol yn sgil cwyn ddi-sail i Weinidogion Cymru am y weithdrefn sydd wedi'i dilyn gan yr awdurdod. Mae cwyn o'r fath yn arwain at "gyfarwyddyd stopio" o dan adran 7. Gan mai dim ond 12 mis sydd gan awdurdod i gwblhau'r gwaredu, gan ddechrau ar y dyddiad y mae'n rhoi hysbysiad am y cynnig i'r cyhoedd, fe allai cyfnod pan fyddai Gweinidogion Cymru wrthi'n ymchwilio i gŵyn o'r fath amharu'n sylweddol ar yr amser a fyddai ar gael i gwblhau'r busnes ac fe allai hyd yn oed ei atal rhag mynd yn ei flaen o gwbl. Gan hynny, mae'r is-adran newydd yn ymestyn y 12 mis yn ôl yr amser pryd y mae'r gŵyn yn cael ei hymchwilio, *ar yr amod* nad yw'r gŵyn yn cael ei chadarnhau.

Adran 2

- Mae'r diffiniad o "faes chwarae" yn adran 2(d) wedi'i ddiwygio i'w gysoni'n well â'r diffiniad o "gyfleuster chwaraeon awyr agored" yn y diwygiad arfaethedig i TAN 16 (yn ogystal ag i'r diwygiad arfaethedig cyfatebol i'r Gorchymyn Gweithdrefn Datblygu Cyffredinol). Mae athletau a golff wedi'u hychwanegu at y rhestr o chwaraeon. Er hynny, mae'r diffiniad yn dal (yn unol â'r ddau ddiffiniad hyn) wedi'i seilio ar chwarae gemau tîm a chwaraeon trefnedig eraill. Nid yw'n cynnwys tir sy'n cael ei ddefnyddio ar gyfer hamdden anffurfiol, a fyddai'n mynd y tu hwnt i'r cynnig a gymeradwywyd gan y Cynulliad ar 6 Chwefror 2008.

Adran 3

- Erbyn hyn, mae adran 3(1)(b) yn ei gwneud yn ofynnol i ddatganiad o'r effaith nodi'r galw am gaeau chwarae yn y gymdogaeth.

Mae adran 3(1)(c)(iii) bellach yn ei gwneud yn ofynnol i'r datganiad o'r effaith nodi'r effaith ar strategaeth iechyd, gofal cymdeithasol a lles yr awdurdod (yn hytrach nag ar ei strategaeth gymunedol).

- Erbyn hyn, mae adran 3(5) yn darparu ar gyfer cyfnod adneuo o chwe wythnos yn lle pedair. (Mae yna newid canlyniadol yn y cyfnod gofynnol rhwng cyhoeddi'r hysbysiad a diwedd y cyfnod adneuo o 5 i 7 wythnos - adran 3(9)).

Adran 4

- Erbyn hyn, mae adran 4(1) yn ei gwneud yn ofynnol yn bendant i'r awdurdod anfon copi o'r datganiad o'r effaith at yr ymgynghoreion.
- Erbyn hyn, mae adran 4(1)(c) yn cynnwys ymhlith yr ymgynghoreion feddianwyr yr holl aelwydydd yn y ward (adran etholiadol).

Adran 6

- Erbyn hyn, mae adran 6(2)(b) yn ei gwneud yn ofynnol i'r datganiad penderfynu gael ei anfon hefyd at yr holl ymgynghoreion, gan gynnwys, felly, bob aelwyd yn yr adran etholiadol.

Yr Atodlen

- Mae'r Atodlen wedi'i diwygio er mwyn dileu o'r rhestr o ymgynghoreion Age Concern, Merched y Wawr a Sefydliad y Merched, gan ychwanegu Partneriaeth leol Cymunedau yn Gyntaf, Comisiynydd Pobl

Hŷn Cymru, Anabledd Cymru, Chwaraeon Anabledd Cymru a'r Tîm
Troseddau Ieuencid Lleol.

Atodiad 1: Rhestr o'r Ymatebwyr i'r Ymarfer Ymgynghori

Cymdeithas Prif Swyddogion Heddlu Cymru

Cymdeithas y Mannau Agored

Grŵp Gweithredu Hamdden Tredelerch a Chanolfan Hamdden Dwyrain
Caerdydd

Y Cyngorydd Lisa Mytton, Fforwm Cymunedol y Faenor

Meysydd Chwarae Cymru

Un Llais Cymru

Cyngor Sir Ddinbych

Cyngor Sir y Fflint

Cyngor Dinas a Sir Abertawe

Sefydliad y Merched

Cymdeithas Criced Cymru

Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru

Cyngor Chwaraeon Cymru

Cyngor Bwrdeistref Sirol Tor-faen

Cyngor Sir Ceredigion

Cyngor Dinas a Sir Caerdydd

Trigolion Pentref Gardd Trelái

Atodiad 2: Crynodeb o'r Ymatebion i'r Ymarfer Ymgynghori

- (1) Ydych chi'n cytuno ag egwyddor y Mesur arfaethedig? Rhowch resymau dros eich barn, a pha effaith gaiff y cynigion yn eich barn chi.**

Roedd y mwyafrif o'r ymatebwyr mewn llywodraeth leol yn gwrthwynebu'r Mesur arfaethedig. Dadleuai Cyngor Sir Ddinbych y byddai'r Mesur arfaethedig yn gosod biwrocratiaeth a chostau ychwanegol ar y cynghorau ac ar Lywodraeth y Cynulliad a'i fod yn tansilio arweinyddiaeth ac atebolrwydd lleol y cynghorau. Teimlai Cyngor Dinas a Sir Abertawe y byddai'r cynnig yn ychwanegu cam diangen arall yn y broses a fyddai'n cymryd amser ac yn gostus i'w weithredu. Er ei bod yn cytuno ag egwyddorion y Mesur arfaethedig, daeth Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC) i'r casgliad bod y polisïau, yr arferion a'r prosesau cynllunio cyfredol yn rhoi sylw digonol i amcanion allweddol y Mesur, gyda'r penderfyniadau'n cael eu gwneud ar sail tystiolaeth gref. Mynegodd Ceredigion rywfaint o bryderon am gyfeiriadau at waredu tir preifat yn y Mesur arfaethedig. Roedd Un Llais Cymru, sef corff cynrychioliadol y cynghorau tref a chymuned yn cefnogi amcanion y Mesur arfaethedig ond roedd ganddyn nhw amheuan arwyddocaol am weithredu'n ymarferol ar lefel cynghorau tref a chymuned.

Roedd y cyrff a fynegodd gefnogaeth i'r Mesur arfaethedig yn cynnwys grwpiau gweithredu lleol fel Grŵp Gweithredu Hamdden Tredelerch a Chanolfan Hamdden Dwyrain Caerdydd (RREEL) a Grŵp Trigolion Pentref Gardd Trelái. Teimlai Caeau Chwarae Cymru (FiT) y byddai'r Mesur arfaethedig yn sicrhau archwiliad mwy trylwyr ar werth y cae chwarae i'r gymuned leol a'i effaith pe bai'n cael ei gollu a dywedodd Cymdeithas y Mannau Agored y byddai manau agored yn parhau i gael eu gwaredu, ar draul y cymunedau lleol, oni bai bod gofyniad mwy cadarn yn cael ei osod ar yr awdurdodau lleol. Roedd Cyngor Chwaraeon Cymru'n cefnogi egwyddorion y Mesur arfaethedig gan awgrymu ei bod yn bosibl bod yna orgyffwrdd rhwng y gofyniad bod rhaid cael Asesiad o'r Effaith yn y Mesur arfaethedig a'r gofyniad bod rhaid paratoi'r Asesiad o Fannau Agored a ragwelid yn y TAN 16 diwygiedig.

- (2) Ydych chi'n cytuno â'r prif ddiffiniadau o dermau sydd wedi'u defnyddio yn adran 2 o'r Mesur arfaethedig? Os nad ydych, esboniwch pam a rhowch unrhyw awgrymiadau eraill.**

Roedd y mwyafrif o'r ymatebion yn fodlon ar y diffiniadau yn Adran 2. Er hynny, gwnaeth rhai o'r ymatebion y pwynt ei bod yn bwysig cael cysondeb rhwng y diffiniadau yn y Mesur arfaethedig a'r rhai yn y TAN 16 diwygiedig.

Roedd nifer o'r ymatebwyr, gan gynnwys Cyngor Chwaraeon Cymru, am weld eglurhad pellach ar y term "maes chwarae". Dadleuai Cyngor Sir y Fflint mai 0.4 o hectar oedd yr isafswm maint a ddylai gael ei ddefnyddio ar gyfer maes chwarae. Roedd Meysydd Chwarae Cymru a Chyngor Chwaraeon Cymru am weld athletau'n cael ei gynnwys yn benodol yn y Mesur arfaethedig.

Roedd RREEL o'r farn bod angen cryfhau'r iaith yn y Mesur arfaethedig, er enghraifft, dylai "disposing of playing fields" droi yn "appropriation, change of use, development or disposal". Teimlai Cyngor Sir Dinbych fod y diffiniad o "waredu" yn rhy eang ac y byddai'n cynnwys prydlesau hir neu drosglwyddiadau teitl i gynghorau cymuned neu gyrff cymunedol neu gyrff chwaraeon eraill, gan gynnwys ymddiriedolaethau elusennol, hyd yn oed pe na bai yna fwriad i newid defnydd y cae chwarae. Mynegodd Cyngor Sir y Fflint bryderon tebyg am y term "gwaredu".

(3) Ydych chi'n cytuno â chynnwys arfaethedig y datganiad o'r effaith? Esboniwch eich barn.

Roedd y mwyafrif o'r cyrff a oedd o blaid egwyddor y Mesur arfaethedig yn cefnogi datganiadau o'r effaith. Er hynny, roedd RREEL o'r farn nad oedd natur y datganiad o'r effaith yn ddigon eang ac y dylai ei gwmpas gael ei ehangu. Credai Meysydd Chwarae Cymru a Chyngor Chwaraeon Cymru y dylai rhyw gyfeiriad at y "galw" am le chwarae gael ei gynnwys.

Roedd y mwyafrif o'r ymatebwyr yn yr awdurdodau lleol yn credu nad oedd angen y datganiadau o'r effaith. Ymhellach, tanlinellodd rhai hefyd mor anodd fyddai asesu iechyd a lles y gymuned. Dywedodd Cyngor Dinas a Sir Abertawe nad oedd yn glir pwy fyddai mewn sefyllfa i wneud yr asesiad technegol hwn ac yn benodol sut y byddai effaith colli caeau chwarae yn gallu cael ei bwysu yn erbyn y nifer fawr o ffactorau eraill sy'n dylanwadu ar iechyd a lles. Roedd y canlyniad yn debyg o fod yn bur oddrychol. Roedd Cyngor Chwaraeon Cymru yn rhannu'r farn hon, gan ddweud nad oedd yn glir pa fathau o fesurau y dylid cyfeirio atyn nhw; a oedd yr wybodaeth ar gael, a sut y byddai gwaredu cae chwarae yn effeithio ar iechyd a lles. Nododd Cyngor Dinas a Sir Caerdydd hefyd y diffyg methodoleg ar gyfer mesur yr effaith.

(4) Ydy'r darpariaethau ynghylch ymgynghori yn briodol? Esboniwch eich safbwynt.

Roedd Cymdeithas y Mannau Agored yn poeni mai dim ond "ystyried" unrhyw sylwadau yr oedd yn ofynnol i'r awdurdodau lleol ei wneud, gan alw am broses fwy cadarn. Roedd ar Gyngor Chwaraeon Cymru eisiau eglurhad o'r camau rhesymol y byddai'n rhaid eu cymryd i ddod â'r datganiad i sylw cyrff. Roedd RREEL am i'r geiriad gael ei newid i

“demonstrable steps” ac yn dymuno gweld cyfnod archwilio o chwe mis. Roedd Ffederasiwn Cenedlaethol Sefydliadau Merched Cymru (NFWI-Cymru) yn credu y dylai'r cyfnod adneuo gael ei ymestyn i ddim llai nag wyth wythnos ac y dylai'r “cyfnod ymgynghori” gael ei ymestyn am bythefnos ar ôl hynny.

Roedd RREEL a Chyngor Sir Ddinbych yn feirniadol iawn o'r cynnig i osod hysbysiad ynghylch penderfyniad i waredu tir yn y wasg leol. Roedd RREEL yn credu bod pythefnos yn annigonol; roedd Cyngor Sir Ddinbych yn credu bod darpariaethau o'r fath yn Fictorianaidd eu natur, gan awgrymu y dylai fod yn ofynnol i'r cynghorau roi cyhoeddusrwydd i warediad arfaethedig drwy un neu ragor o ffyrdd, gan gynnwys y wefan neu ddatganiad syml i'r wasg gan y cyngor na fyddai'n achosi costau hysbysebu.

(5) Ydy'r ymgynghoreion yn yr Atodlen yn briodol? A ddylai ymgynghoreion llai penodol gael eu nodi? Os felly, sut dylai'r ymgynghoreion gael eu nodi?

Roedd llawer o'r ymatebwyr yn fodlon ar yr ymgynghoreion a nodwyd ond yn credu y gallai'r rhestr gael ei hymestyn i gynnwys cyrff eraill megis Chwaraeon Anabledd Cymru a Chomisiynydd Pobl Hŷn Cymru.

Er hynny, mynegodd rhai cyrff amheuon cryf am y ddarpariaeth hon. Dywedodd Cyngor Dinas a Sir Abertawe na ddylai grwpiau diddordeb arbennig fod yn ymgynghoreion statudol, a hynny fel mater o egwyddor, ac y byddai gan y cyrff a oedd wedi'u rhestru duedd glir i wrthwynebu gwarediadau. Tanlinellodd Cyngor Sir Ddinbych y perygl y byddai mwy a mwy o gyrff yn cael eu hychwanegu dros amser. Doedd RREEL ddim yn credu bod digon o gyfeiriadau at bobl leol.

(6) Pan fo'r awdurdod wedi penderfynu bwrw ymlaen a chael gwared ar gaeau chwarae ar ôl ymgynghori, ydych chi'n credu bod y gofynion sy'n cael eu gosod ar yr awdurdod lleol yn foddhaol? Esboniwch eich barn.

Pe bai awdurdod lleol yn penderfynu bwrw ymlaen â gwarediad, dadleuai RREEL y dylai hynny gael ei ategu â thystiolaeth oddi wrth ymgynghoreion. Roedd Meysydd Chwarae Cymru a Chymdeithas y Mannau Agored yn cefnogi'r darpariaethau hyn ac yn croesawu'r “datganiadau penderfynu”. Er hynny, dywedodd Cymdeithas y Mannau Agored nad oedd yn glir a oedd yna broses ffurfiol i herio penderfyniad.

Dywedodd Cyngor Sir Ddinbych nad oedd yn ymddangos bod y darpariaethau hyn yn gyson â'r trefniadau arferol ar gyfer atebolrwydd lleol a'u bod yn codi'r cwestiwn pam roedd y Mesur arfaethedig yn amau na

fyddai'r cynghorau yn cydymffurfio â gofynion a fyddai'n ofynion statudol. Y perygl oedd y byddai'r cynghorau'n wynebu perygl dwbl a rhagor o ohirio.

(7) Amlinellwch eich barn chi am y pwerau sydd gan Weinidogion Cymru i roi cyfarwyddiadau i'r awdurdodau lleol?

Mae Meysydd Chwarae Cymru, Cymdeithas y Mannau Agored, NFWI-Cymru, Un Llais Cymru a'r Cyngor Chwaraeon i gyd o blaid y pwerau i Weinidogion Cymru ond roedd Cymdeithas y Mannau Agored yn credu hefyd y dylai fod gan Weinidogion Cymru bŵer gor-redol.

Credai CLILC y gallai'r darpariaethau hyn greu galw beichus am ymgysylltiad ac ymateb o du Gweinidogion Cymru a hynny heb fantais gwybodaeth leol. Roedd un awdurdod lleol, Cyngor Dinas a Sir Abertawe, yn credu bod y cynigon hyn yn gadarn o ran egwyddor ond y byddai angen diogelwch o ran yr amseru, proses apelio yn sgil penderfyniad gan y Gweinidogion a'r hawl i awdurdod lleol adennill ei gostau pe bai ei benderfyniad yn cael ei gadarnhau, er mwyn atal heriau blinderus.

(8) A fydd y cynigion yn arwain at gostau ariannol i'ch sefydliad chi? Os felly, beth fydd y costau hynny (dywedwch faint fyddan nhw)?

Dadleuai'r mwyafrif o ymatebion gan yr awdurdodau lleol y byddai'r cynigion yn gosod costau arwyddocaol arnyn nhw. Dadleuai Cyngor Sir Caerdydd na allai'r gost gael ei mesur yn gywir ar y pryd. Byddai costau'n codi yn uniongyrchol wrth baratoi data meincnodi isorweddol y gellid mesur effaith unrhyw gynigion ar ei sail. Byddai'r broses ymgynghori estynedig yn creu costau hefyd.

Dadleuai Cyngor Sir Ddinbych y byddai'r costau'n dibynnu ar faint o warediadau a geid. Dim ond cwpl o gaeau chwarae a oedd wedi'u gwaredu i'w datblygu yn y pum mlynedd diwethaf.

Gwnaeth CLILC a rhai o'r awdurdodau lleol y pwynt arall bod y Mesur arfaethedig yn methu â chydabod y gall caeau chwarae segur fod yn ased arwyddocaol sydd o'i realeiddio yn gallu helpu i sicrhau gwir fuddion i'r gymuned a nodau strategol ehangach megis tai fforddiadwy a/neu fuddsoddiadau mewn ysgolion lleol.

Roedd Meysydd Chwarae Cymru yn amcangyfrif y byddai adolygu cynigion arfaethedig ynglŷn â chaeau chwarae a chyflwyno sylwadau arnyn nhw yn debyg o gostio tua £5,300 y flwyddyn. Ar sail y ceisiadau a gafwyd dros y pum mlynedd diwethaf, amcangyfrifodd Cyngor Chwaraeon Cymru y byddai'r amser a dreulid gan y staff yn ystyried cynigion yn costio £2,900.

Ychwanegiad 3: Yr Aseiad Effaith Reoleiddiol a ddarparwyd pan gyflwynwyd y Mesur arfaethedig

Ymddangosodd yr Ychwanegiad hwn fel Pennod 8 a 9 yn y Memorandwm Esboniadol gwreiddiol a osodwyd pan gyflwynwyd y Mesur arfaethedig ym mis Gorffennaf 2008. Nid yw wedi'i ddiweddarau i gymryd i ystyriaeth unrhyw newidiadau polisi ers hynny.

8. Yr Opsiynau

8.1 Mae yna bryder eang ynghylch lefelau gordewdra yng Nghymru a'r angen i bobl ymarfer corff yn rheolaidd. Mae'r rhanddeiliaid allweddol hefyd wedi mynegi pryder bod caeau chwarae'n cael eu gwerthu, gan golli mannau lle gall pobl ddilyn gweithgareddau iach ac sy'n cyfrannu at les cyffredinol yr ardal leol.

8.2 O ganlyniad i *Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006*, mae yna gyfle yng Nghymru i ddefnyddio pwerau deddfu newydd y Cynullid Cenedlaethol i osod dyletswydd ar yr awdurdodau lleol yng Nghymru i gynnal aseiad o'r effaith ac ymgynghori â rhanddeiliaid allweddol cyn bwrw ymlaen i gael gwared ar gaeau chwarae.

8.3 Yr opsiynau ar hyn o bryd yw:

Opsiwn 1: Gwneud dim

Opsiwn 2: Dibynnu ar ddiwygiadau i'r canllawiau cynllunio cyfredol

Opsiwn 3: Cyflwyno Mesur arfaethedig.

Opsiwn 1: Gwneud dim

8.4 Gwneud dim yw'r opsiwn cyntaf. Byddai hynny'n golygu bod y gofynion ynghylch ymgynghori a'r gofynion eraill sy'n ymwneud â gwaredu neu ddatblygu caeau chwarae yn parhau yr un fath ag ar hyn o bryd.²² Byddai hynny, i bob pwrpas, yn caniatáu i gaeau chwarae barhau i gael eu gwaredu heb i aseiad llawn gael ei wneud o'r effaith ar iechyd a lles y gymuned leol.

8.5 Barn cyrff fel Meysydd Chwarae Cymru (FIT)²³ a Chymdeithas y Mannau Agored²⁴ yw nad yw'r sefyllfa sydd ohoni yn caniatáu digon o amser ar gyfer ystyriaeth ddigonol ar y goblygiadau ynglŷn â gwaredu caeau

²² Fel y maen nhw wedi'u nodi yng Ngorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Datblygu Cyffredinol) 1995 a Deddf Llywodraeth Leol 1972, ac yn y canllawiau cynllunio presennol, sef Polisi Cynllunio Cymru a TAN 16

²³ Gwefan Meysydd Chwarae Cymru http://www.npfa.co.uk/what_we_do/how_we_are_organised/fit_cymru.php

²⁴ Cymdeithas y Mannau Agored, Ymateb Ymgynghori ar y Mesur arfaethedig, 2008.

chwarae a all gael eu colli i'r gymuned leol gan greu effeithiau andwyol ar ei hiechyd a'i lles.

Opsiwn 2: Dibynnu ar ddiwygiadau i'r canllawiau cyfredol

- 8.6 Yr ail opsiwn yw i Lywodraeth Cynulliad Cymru barhau i fonitro a diwygio'r canllawiau i'r awdurdodau lleol ym Mhennod 11 o *Polisi Cynllunio Cymru* (PPW) a Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 16. Mae'r olaf, sydd wedi'i ddiwygio ac sydd i fod i gael ei ailgyhoeddi, yn cynnig cyngor ar faterion y mae'r awdurdodau cynllunio yn dod ar eu traws ynglŷn â chwaraeon, hamdden a mannau agored.
- 8.7 Dadleuai'r ymatebion ymgynghori ar y Mesur arfaethedig drafft a ddaeth i law oddi wrth awdurdodau lleol fod y gyfundrefn gynllunio bresennol, ac yn benodol y ffaith eu bod yn disgwyl gweld cyhoeddi TAN 16 diwygiedig, yn ffordd ddigonol a phriodol i ddiogelu caeau chwarae a bod ymgynghori helaeth eisoes wedi'i gynnal ynglŷn â hynny.
- 8.8 Bydd y TAN 16 diwygiedig yn anelu at wneud mwy i integreiddio'r cysylltiadau rhwng iechyd a lles, chwaraeon a gweithgareddau hamdden a datblygu cynaliadwy yng Nghymru drwy ddatblygu canllawiau ar gynllunio defnyddio tir yn unol â'r polisiau a nodwyd yn PPW.
- 8.9 Mae'r TAN 16 diwygiedig yn debyg o ddweud mai'r unig ffordd resymol i wireddu'r amcanion sydd wedi'u nodi yn PPW yw drwy gynnal asesiadau lleol o anghenion ac archwilio'r ddarpariaeth bresennol. Mae'r asesiadau hyn sy'n cael eu cynnal gan yr awdurdodau lleol, o'u cymryd gyda'i gilydd, yn ffurfio Asesiad o Fannau Agored,²⁵ a fydd yn ofynnol ac a fydd yn gorfod cael ei ddefnyddio i fwydo'r gwaith i baratoi, monitro ac adolygu'r polisiau mewn Cynlluniau Datblygu Lleol (LDPs).
- 8.10 Mae'r TAN 16 diwygiedig drafft yn nodi y bydd cynnal asesiadau yn gofyn am gydweithredu rhwng adrannau'r awdurdod lleol, asiantaethau allanol a'r cyhoedd.²⁶ Er hynny, er y bydd asesiadau fel rheol yn cael eu cydgorio gan awdurdod lleol, os nad ydyn nhw wedi'u cynnal, gall arolygon wedi'u paratoi ar ran ceisydd cynllunio gael eu hystyried, ar yr amod eu bod yn gyson â'r fethodoleg sydd wedi'u nodi yn y ddogfen a'r amcanion polisi sydd wedi'u cynnwys yn PPW.
- 8.11 Er bod Asesiadau o Fannau Agored yn debyg o fod yn un o'r gofynion ar gyfer ardaloedd lleol o dan y TAN 16 diwygiedig ac er bod y Gorchymyn Gweithdrefn Datblygu Cyffredinol yn ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdod lleol ymgynghori â Chyngor Chwaraeon Cymru ynghylch ceisiadau cynllunio unigol, bydd y Mesur arfaethedig hwn yn darparu rhagor o ddulliau diogelu drwy fynnu cael datganiadau o'r effaith ac ymgynghori helaeth er mwyn ystyried yr effaith ar iechyd a lles bob tro y bydd yna

²⁵ Mae mannau agored yn cynnwys nid dim ond tir, ond dyfroedd hefyd. Mae teipoleg mannau agored ar gael yn Atodiad B i ddogfen ymgynghori y TAN 16 diwygiedig.

²⁶ Adran 1.36

warediad. Byddai'n rhaid i'r awdurdod lleol gymryd ei Aseiad o Fannau Agored i ystyriaeth wrth baratoi datganiad o'r effaith ar gyfer gwarediad unigol (hynny yw mewn perthynas â'r gofyniad o dan adran (3(1)(c) (i) yn y Mesur arfaethedig).

Opsiwn 3: Cyflwyno Mesur arfaethedig

8.12 Byddai'r trydydd opsiwn, sy'n golygu cyflwyno Mesur arfaethedig, yn ymgorffori mewn deddfwriaeth broses fwy cadarn ac atebol pan fyddai penderfyniad i waredu caeau chwarae yn cael ei ystyried.

8.13 Byddai'r Mesur arfaethedig:

- yn ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdod lleol baratoi aseiad o effaith pob gwarediad ar iechyd a lles y gymuned;
- yn cynnwys proses ymgynghori hirach; ac
- yn enwi ymgynghoreion statudol.

8.14 Byddai'r Mesur arfaethedig i bob pwrpas yn darparu dull diogelu newydd a fyddai'n ychwanegol at y sefyllfa bresennol sy'n bodoli mewn perthynas â gwaredu caeau chwarae.

9. Amcangyfrif o'r Costau

Opsiynau 1 a 2

- 9.1 Gan fod cyhoeddi'r TAN 16 diwygiedig i'w ddisgwyl yn fuan, nid yw Opsiwn Un, y *status quo* yn debyg o barhau yn hir.
- 9.2 Er hynny, os bydd y Tan 16 diwygiedig yn cynnwys gofyniad bod rhaid i'r awdurdodau lleol gynnal Asesiad o Fannau Agored, bydd hynny'n cynnwys nifer o gyfnodau, sef:
- nodi'r anghenion lleol;
 - archwilio'r ddarpariaeth leol;
 - pennu safonau'r ddarpariaeth;
 - cymhwyso safonau'r ddarpariaeth;
 - drafftio polisïau ar gyfer y cynllun datblygu.
- 9.3 Mae gan Loegr²⁷ a'r Alban²⁸ ddarpariaeth debyg ar gyfer asesu ac archwilio yn eu canllawiau cynllunio.
- 9.4 Mae'r awdurdodau lleol yn Lloegr a'r Alban yn dweud mai'r archwiliad o fannau agored yw'r elfen sy'n fwyaf dwys o ran adnoddau wrth baratoi Asesiad Mannau Agored. Mae rhai awdurdodau lleol yn gallu gwneud y gwaith yn fewnol, ond mae'r rhai sydd wedi cyflogi ymgynghorwyr yn dweud bod y costau oddeutu £30-£40,000 am gynnal yr archwiliad a pharatoi strategaeth dros gyfnod o 18 mis i ddwy flynedd,²⁹ er bod y costau yn gallu codi i ryw £80,000.³⁰

Opsiwn 3

- 9.5 Os bydd y Mesur arfaethedig yn llwyddo, mae'r rhan fwyaf o'r costau yn debyg o gael eu hysgwyddo gan yr awdurdodau lleol mewn perthynas â'u dyletswydd i baratoi'r asesiad o'r effaith ac ymgynghori yn ei gylch.
- 9.6 Fel rhan o'r ymarfer ymgynghori, gofynnwyd i'r ymatebwyr amcangyfrif effaith ariannol debygol y Mesur arfaethedig. Cyngor Bwrdeistref Tor-faen oedd yr unig awdurdod lleol a roddodd amcangyfrif manwl o gostiadau. Dywedodd Cyngor Sir Ddinbych, Dinas a Sir Abertawe a Dinas a Sir Caerdydd fod y costau'n anodd i'w rhagweld ar hyn o bryd a dywedodd y ddau awdurdod olaf eu bod yn debyg o fod yn "arwyddocaol". Er hynny, byddai hynny'n cael ei gydbwyso gan pa mor aml y ceid cynigion i gael gwared ar gaeau chwarae. Awgrymodd Cyngor Sir Ddinbych, ar yr amod

²⁷ DCLG, *Planning Policy Guidance 17: Planning for open space, sport and recreation*, 2002.

²⁸ Llywodraeth yr Alban, *PAN 65: Planning and Open Space*, 2008.

²⁹ Er enghraifft, Cyngor West Dunbartonshire (Mawrth 2008), Cyngor Bwrdeistref Swale (2005), Bwrdeistref Oadby a Wigston (2008), Cyngor Bwrdeistref Metropolitan aidd Doncaster.

³⁰ Er enghraifft, Cyngor West Lanarkshire (Ionawr 2007).

bod y diffiniad o'r term "gwaredu" yn cael ei dynhau, y gallai hyn fod cyn lleied â dau gae chwarae mewn pum mlynedd.

Paratoi'r Datganiad o'r Effaith a'i gyhoeddi mewn papurau newydd lleol (Adran 3)

- 9.7 Amcangyfrifodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Tor-faen y byddai paratoi asesiad o'r effaith yn costio tua £2,000 o ran amser swyddogion ac y byddai'n costio £2,000 arall i ddatblygu darpariaeth arall ar gyfer chwaraeon.
- 9.8 Os bydd yn ofynnol i'r awdurdodau lleol gynnal Asesiad o Fannau Agored o dan TAN 16 diwygiedig, gan gynnwys archwiliad o'r ddarpariaeth, mae'n debyg y bydd llawer o'r wybodaeth y bydd ei hangen i baratoi datganiad o'r effaith wedi'i chasglu eisoes, ac y bydd y costau wedi'u hysgwyddo, fel rhan o'r ymarfer hwnnw.
- 9.9 Os bydd angen astudiaeth ar wahân, amcangyfrifodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Tor-faen fod astudiaeth lawn o chwaraeon a hamdden i ddarganfod y ddarpariaeth gyffredinol ar gyfer caeau chwarae yn y gymdogaeth, gan gynnwys ansawdd a hygyrchedd y caeau chwarae hynny (adran 3(1)(c)(i)) yn debyg o gostio £35,000 ar gyfer y sir yn ei chrynswth. Gallai astudiaeth o'r fath ddarganfod hefyd lefel y galw, gan gynnwys unrhyw alw yn y dyfodol y gellid ei ragweld, am ddefnyddio caeau chwarae yn y gymdogaeth (cafodd y ddarpariaeth hon, yn adran (3)(1)(b) ei mewnosod ar ôl ymgynghori).
- 9.10 Amcangyfrifodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Tor-faen y byddai hysbysebu'r datganiad o'r effaith mewn papurau newydd lleol (adran 3(8)) yn costio tua £1,250.

Ymgynghori ac ystyried sylwadau (adrannau 4 a 5)

- 9.11 Mae'r Mesur arfaethedig yn ei gwneud yn ofynnol i gopi o'r datganiad o'r effaith gael ei anfon at yr holl drigolion lleol, yn ogystal ag at y sefydliadau sydd wedi'u rhestru yn yr Atodlen a'r rhai sy'n cynrychioli pobl sy'n debyg o ddefnyddio'r cae chwarae (adran 4(1)).
- 9.12 Amcangyfrifodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Tor-faen y byddai amser swyddogion i ymgynghori ynglŷn â'r asesiad o'r effaith yn costio £1,500 ac i gyflwyno adroddiad ar yr ymgynghori £1,000. Byddai ystyriaethau'r Pwyllgor ar yr Adroddiad yn costio £500 arall.
- 9.13 Yn ychwanegol, bydd costau'n cael eu hysgwyddo wrth argraffu a dosbarthu'r datganiad o'r effaith. A bwrw y bydd yn ddogfen ddwyieithog sylfaenol o 40 tudalen ac y caiff ei hargraffu'n fewnol, amcangyfrifir y bydd y costau argraffu yn £130 am bob 1,000 o gopiâu. Ar gyfer argraffu

masnachol, gallai'r costau fod hyd at £2,000 am bob 1,000 o gopïau. Bydd yr union gost yn dibynnu ar nifer yr aelwydydd y mae'n rhaid ymgynghori â nhw.

O ran costau dosbarthu, amcangyfrifwyd y bydd y rhain, ar gyfer 1,000 o gopïau, yn £700 am bost dosbarth cyntaf a £600 am bost ail ddsbarth.

Penderfynu a ddylid bwrw ymlaen (adran 6)

- 9.14 Mae adrannau 6(1) a 6(2) yn ei gwneud yn ofynnol i hysbysiadau gael eu cyhoeddi mewn un neu fwy o bapurau newydd yn lleol. Mae adran 6(2) hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i ddatganiadau penderfynu gael eu hanfon at yr holl ymgynghoreion sydd wedi'u rhestru yn adran 4(1).
- 9.15 Mae papurau newydd lleol yn codi taliadau am gyhoeddi hysbysiadau cyhoeddus fesul centimetr sgwâr. Gall y cyfraddau amrywio yn ôl ardal y cyhoeddiad. Mae holl argraffiadau'r *North Wales Daily Post* yn costio £21.90 am bob cm ac mae'r *South Wales Echo* yn costio £23.38. Er hynny, gallai papur ar gyfer ardal ddaearyddol fwy cyfyngedig megis yr *Holyhead and Anglesey Mail* godi cyn lleied â £5.95 y cm.
- 9.16 Amcangyfrifodd Cyngor Sir Ddinbych fod hysbysiad nodweddiadol ar gyfer cynnig sy'n effeithio ar ysgol neu hysbysiad cau priffyrdd yn costio £110 bob tro y mae'n cael ei osod mewn papur newydd lleol neu £1,000 yn y *Daily Post*.
- 9.17 Amcangyfrifodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Tor-faen y byddai hysbysebu'r datganiad penderfynu yn y wasg leol yn costio £1,250.
- 9.18 Amcangyfrifodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Tor-faen y byddai paratoi datganiad penderfynu yn costio tua £250.
- 9.19 Yn ychwanegol, bydd costau'n cael eu hysgwyddo hefyd wrth argraffu a dosbarthu datganiad penderfynu. Bydd y costau hyn yn dibynnu ar nifer yr aelwydydd/sefydliadau y mae'n rhaid ymgynghori â nhw o dan adran 4(1), ond fe fyddan nhw gryn dipyn yn llai na'r costau sy'n gysylltiedig ag argraffu a dosbarthu'r datganiad o'r effaith.

Y costau cyffredinol

- 9.20 Ar sail y ffigurau a ddarparwyd gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Tor-faen, amcangyfrifir bod y costau tebygol ar gyfer un gwarediad tua £10,000 ynghyd â'r costau argraffu a dosbarthu sy'n gysylltiedig â pharatoi datganiadau o'r effaith ac unrhyw ddatganiad penderfynu.
- 9.21 Bernir y bydd paratoi astudiaeth chwaraeon a hamdden (gweler paragraff 9.9) i fwydo'r gwaith i baratoi datganiad o'r effaith yn cael ei drafod drwy

baratoi Asesiad o Fannau Agored o dan TAN 16 diwygiedig. Gan hynny, bydd y costau'n cael eu hysgwyddo fel rhan o baratoi Asesiad o Fannau Agored. Os na fydd Asesiad o Fannau Agored yn cael ei gynnal, amcangyfrifir y bydd yr astudiaeth chwaraeon a hamdden yn costio £35,000. Os oes angen astudiaeth o'r fath, mae'n bosibl na fydd costau gwarediad yn y dyfodol mor uchel, os bydd yr astudiaeth yn dal yn berthnasol.

- 9.22 Amcangyfrifon bras wedi'u seilio ar un ffynhonnell yw'r costiadau hyn. Awdurdod cymharol fach yw Cyngor Bwrdeistref Sirol Tor-faen o ran ei phoblogaeth a'r drydedd leiaf yng Nghymru o ran ei harwynebedd. Oherwydd hyn mae'n amhosibl cymryd bod costau darparu cynlluniau ar gyfer yr awdurdod cyfan yn nodweddiadol ar gyfer yr holl awdurdodau yng Nghymru ac mae'r costau ar gyfer awdurdodau mwy yn debyg ofod yn uwch.
- 9.23 Bydd goblygiadau o ran eu costau yn sgil y Mesur arfaethedig ar gyfer yr awdurdodau lleol. Bernir y dylai'r costau hyn gael eu hystyried yn erbyn y buddion yn y tymor hirach sy'n gysylltiedig â gwell iechyd, megis cyfrannu at atal gordewdra; lleihau'r risg o ddatblygu clefyd coronaidd y galon, osteoporosis, canser y colon a'r gostyngiad posibl yn y costau gofal iechyd sy'n gysylltiedig â'r rhain.
- 9.24 Fel y nododd Cyngor Sir Ddinbych yn eu hymateb ymgynghori, fe allai'r Mesur arfaethedig effeithio ar gyn lleied â dau gae chwarae bob pum mlynedd. Gan hynny, mae'r goblygiadau ariannol yn debyg o fod yn gyfran fach o gyfanswm cyllideb flynyddol yr awdurdodau.

Y gost i'r ymgynghoreion statudol

- 9.25 O ran costau'r ymgynghoreion statudol, amcangyfrifodd Meysydd Chwarae Cymru fod adolygu a chyflwyno sylwadau ar gynigion arfaethedig ynghylch caeau chwarae yn debyg o gostio tua £5,300 y flwyddyn. Ar sail y ceisiadau a ddaeth i law dros y pum mlynedd diwethaf, amcangyfrifodd Cyngor Chwaraeon Cymru y byddai'r amser a dreulid gan y staff yn ystyried cynigion yn dod i £2,900 yn ôl y lefelau cyflog presennol.